Yn gysylltiedig â Gŵyl Aberystwyth ac yn sgil ei llwyddiant cafodd aelodau'r tim hoci wahoddiad i chwarae ar faes Blaendolau ar fore Sadwrn yr Wyl. Yr oedd yn dywydd braf a'r merched wrth eu bodd ar y maes ac yn hynod o falch o gael y profiad o chwarae yno. Derbyniodd y bechgyn hwythau wahoddiad i dderbyn hyfforddiant mewn chwarae criced o dan gyfarwyddyd Mr Tom Cartwright o Forgannwg ac yn ôl pob hanes cawsant fwynhad mawr.

Bu cor yr ysgol yn cynnal cyngerdd i drigolion Tregerddan un prynhawn Mawrth. Treuliwyd amser hapus iawn yn y cartref ac yn ôl yr hyn a glywn cafodd y cyfeillion yn Nhregerddan fwynhad yn ogystal o wrando ar y plant.

Hyfryd oedd cael croesawu Cymdeithas Ymddeolwyr Penrhyn-coch i'r ysgol un prynhawn. Estynnwyd croeso iddynt gan y prifathro ac wedi eistedd i lawr i de Cymreig a drefnwyd gan gyfeillion Clwb Urdd yr Ysgol mwynhaodd yr ymddeolwyr gyngerdd gan y plant. Diolchodd yr Athro P. T. Thomas a'r Dr David Jenkins ar ran yr ymddeolwyr i bawb am bob caredigrwydd. Pleser gennym ninnau oedd cael cwmni'r cyfeillion hyn.